Unconfirmed Minutes of the Board Meeting held on 30 April 2020, (held electronically via skype / telephone)

Present:		
Jan Williams	(JW)	Chair
Tracey Cooper	(TC)	Chief Executive
Jyoti Atri	(JA)	Interim Executive Director of Health and Wellbeing *(part of the meeting, left at 11:05am)*
Rhiannon Beaumont-Wood	(RB-W)	Executive Director of Quality, Nursing and Allied Health Professionals
Kate Eden	(KE)	Non-Executive Director, Vice Chair and Chair of Quality, Safety and Improvement Committee
Dyfed Edwards	(DE)	Non-Executive Director and Chair of Audit and Corporate Governance Committee (part of the meeting, left at 10:00 am and re-joined the meeting at 11:05)
Huw George	(HG)	Deputy Chief Executive and Executive Director of Finance and Operations
Stephen Palmer	(SP)	Non-Executive Director
Judi Rhys	(JR)	Non-Executive Director (Third Sector) and Chair of the People and Organisational Development Committee
Quentin Sandifer	(QS)	Executive Director of Public Health Services/Medical Director
Alison Ward	(AW)	Non-Executive Director (Local Authority)
In Attendance:		
Mark Bellis	(MB)	Director of Policy and International Health, WHO Collaborating Centre on Investment for Health & Well-being (WHO CC)

Sian Bolton	(SB)	Interim Transition Director, Knowledge Directorate,
John Boulton	(JB)	Director of NHS Quality Improvement and Patient Safety/Director Improvement Cymru (part of the meeting, left at 11:05am)
Phil Bushby	(PB)	Director of People and Organisational Development
Helen Bushell	(HB)	Board Secretary and Head of Board Business Unit, via teleconference
Paul Dalton	(PD)	Head of Internal Audit (observing)
Reanne Reffell	(RR)	Corporate Governance Officer (Secretariat)
Stephanie Wilkins	(SW)	Representative of Staff Partnership Forum (part of the meeting)
Apologies:		

The meeting commenced at 09:45

PHW55/2020 Welcome
JW welcomed everyone to the meeting, being held as the covid-19 pandemic continued its global spread, with over three million people infected and over 200,000 deaths world-wide. Close to 900 people had lost their lives in Wales, a number from the health and care family. The Board observed a minute silence in their memory.
PHW56/2020 Apologies
No apologies for absence were received.
PHW57/2020 Declarations of Interest
AW highlighted her assistance, at the request of the Minister for Local Government, on the Local Government Recovery plan. Members made no additional declarations of interest in addition to those already on the declarations of interest register.
PHW58/2020 Minutes from the Board Meeting on 26 March2020
The Board **approved** the minutes as an accurate record of the meeting of 26 March 2020 subject to the amendment of a typographical (ref 3.1.1.300420).
PHW59/2020 Board Action Log
The Board **considered** the Action Log (ref 3.1.2.300420). The Board **approved** the closure of the action marked as complete.

PHW60/2020 Board Assurance Framework

Novel Coronavirus (COVID-19)

The Board received an update report on COVID-19 (ref 4.1.1.300420); this brought together those key areas also reviewed during the course of the weekly Board briefing sessions. Discussions centred on:

Closed Settings

JA summarised the work underway to support the care home sector, including the management of outbreaks, and consideration of widening the current testing regime, to possibly incorporate point of care testing.

SP noted the need for a sound epidemiological underpinning of the approach and the importance of public confidence; care home testing continued to attract wide public comment.

TC outlined the strategic approach under development; Andrew Jones was engaged in this work and she would ask him to provide a written briefing. TC would also forward a letter to the sector from Frank Atherton and Albert Heaney, setting out how the public health system would support care homes.
Action AJ, TC

JW thanked JA and TC for the update; given the significance of the care home sector, she requested specific reports on this sector for future meetings, together with reports on the prison sector, another significant closed setting. In the latter context, she referenced a recent report from Public Health England on the management of COVID-19 in prisons in England and Wales. QS commented on this report and the proposed communications with Public Health England.
Action JA, QS

Public Health Protection Response Plan (the Plan)

JW extended Non-Executives' warmest congratulations to Executive colleagues and the whole team involved in the production of the Plan; this had been a phenomenal undertaking, conducted at pace; it reflected fully the team's wealth of expertise, and set out clearly all the Public Health Wales advice on the actions needed for the next phase of COVID-19, together with the urgency of the situation.

TC reported that she had issued the Plan to trusted colleagues the previous evening, in line with the request from the CMO; recipients had until 5pm on May 1 to respond; the team would analyse the responses over the week-end and 'hand over' the final Plan to Welsh Government on May 4, for Welsh Government to consider.

TC then drew the Board's attention to Part 3 of the Plan; this set out the advice on the key critical policy decisions, enabling actions and key actions needed by the 7 May. QS outlined the benefit of forwarding the Plan to those attending the Public Health Wales Strategic Co-Ordinating Group meeting on 1 May; membership included SCG chairs and LRF representatives and the meeting offered an opportunity to engage directly with key partners. He was waiting for confirmation of his request to this effect.

AW updated the Board on discussions with local government Chief Executives and representatives of environmental health officers.

TC noted the first meeting of a Welsh Government programme board that afternoon; which provided an opportunity for initial feedback. The Board would have a further update early in the coming week, following the analysis of the feedback.

Workforce Update (ref 4.1.2.300420)
RB-W reflected on the major ask being made of all staff, a number of whom were working long hours and at significant pace. She took the Board through: the resources and support in place for staff; arrangements for effective redeployment and mutual aid; the practical advice and support offered; the temporary variations to the People policies, as set out in Appendix A.
Looking ahead, RB-W outlined the issues and risks, together with the workforce challenges associated with the organisational recovery plan.

QS and MB reflected on the balance needed to ensure that the health protection function retained the workforce resources needed for the COVID-19 response, whilst still enabling vital work on the societal and population health implications of the pandemic to continue.

KE asked for clarification around the 500-550 staff identified as being on civic duties; RB-W explained that this data was not accurate and was in the process of being updated and cleansed. SB expanded into this point, confirming that managers were in regular contact with these staff and agreeing work packages; many staff were also volunteering. RB-W agreed to update the explanation given, to provide greater clarity
Action RB-W, SB

JW thanked RB-W for this update and expressed the Board's understanding of the unique working environment staff found themselves in, and appreciation for their willingness to adapt so readily. The Board would convey its thanks to staff in the next communication
Action JW, HB

Understanding and Responding to the Wider Societal wider societal impacts of Coronavirus and measures taken to control its transmission

MB outlined the series of actions that he and his team were taking to foster a better understanding of the impact of COVID-19 measures on the broader health of the population. The Board report included a diagram setting out a systemised approach to intelligence gathering, including: COVID Health Impact Assessment (HIA); National Public Engagement Survey; International Horizon Scanning; Dashboard of broader health trends.

MB noted the sharing of the weekly survey results on the Public Health Wales website from now on, and the circulation of the same. The results could inform future planning and gauge levels of public acceptance of, compliance with, any new measures.

The report on the wider implications on population health was nearing completion and TC confirmed that this would be submitted to Welsh Government next week.

Board members welcomed the update, complimenting MB and his team on the breadth of the work underway; members were interested in hearing more of the dashboard development, international learning and progress with the HIA

Reporting of COVID Deaths (ref 4.1.3.300420 and ref 4.1.4.300420)
QS explained the background to, and the outcome of, the review of the reporting of COVID deaths at health board level. He would now be holding weekly assurance meetings with health board medical directors and the Welsh Government chief statistician.

The Board **resolved** to note the update about the Public Health Wales response to the COVID-19 pandemic.

PHW61/2020 Screening Programmes in Wales

The Board **received** the Screening Programme update (ref 4.2.300420).

QS rehearsed the reasons for suspending five of the national screening programmes from 18 March 2020; this mirrored the decision taken in Scotland and N. Ireland- England had a decentralised programme model, so there has been no corresponding national position statement.

The report set out how the Screening Division had worked to reduce the impact of the suspensions and had redeployed staff to support the covid-19 response; it also updated the Board on the three programmes still operating: ante-natal screening, new-born blood spot and hearing programmes.

QS then summarised the continuing provision through which symptomatic patients access assessment and treatment in respect of breast, cervical and

bowel cancer services. He explained the reasons for the suspension of colonoscopy services and the identification of an alternative patient pathway.

KE sought more information on the work underway to assess the potential harms resulting from the programmes' suspension; SP echoed this point, reiterating the importance of understanding the harms resulting from screening disruption. He also raised the issue of rebuilding public confidence in accessing NHS services and the role of COVID-19 testing in supporting the resumption of some services. JR noted the variable uptake of screening programmes pre-COVID, and the importance of focussed public engagement.

QS welcomed the comments and briefed the Board on the work underway at UK and Wales levels, the latter involving the Welsh Cancer Network and the Welsh Screening Committee. He reported on the consideration being given to the role of testing in supporting the resumption of certain surgical procedures; and confirmed that the Screening Division had already begun to consider the public engagement requirements.

JW confirmed with KE that the next Quality, Safety and Improvement Committee would include an item on screening programmes; RB-W advised that she could report no issues with the supply of PPE.

JW thanked QS and the Screening Division for the report, and Board members for their contributions to this important debate.

The Board **resolved** to note the current position of the screening programmes, and how the Screening Division had worked to reduce impacts and realigned itself to support the COVID-19 response.

PHW62/2020 Governance Arrangements

The Board received the Governance Arrangements paper (ref 4.3.300420)

HB summarised the purpose of the report as offering assurance that the Board and the organisation was maintaining good governance during the COVID-19 response; she confirmed the matters still reserved to the Board for decision in line with the Board scheme of delegation; and drew attention to the section on providing advice to Welsh Government. The Board's role in developing the Public Health Protection Response Plan had exemplified the provision set out.

TC explained the rationale for modifying the organisational management arrangements for the next phase of the COVID-19 response; the programme management board structure was set out in appendix two.

The Board **resolved** to:

- **Approve** for the period of the coronavirus pandemic that the Board would reduce the agenda and focus on essential business only;

- **Adopt** the working principles and ways of working to be agreed and applied during this period;
- Take **assurance** from the operational management structure in response to the COVID-19 pandemic.

PHW63/2020 Integrated Performance Report

The Board **received** the Integrated Performance report (ref 4.3.300420).

HG introduced the report, noting the provision of data in dashboard form and the focus on reporting against four domains: COVID-19 response; Finance; Workforce; Performance Indicators.

The COVID-19 report provided high level surveillance data, of the kind the Board was now used to seeing extracted from the daily summaries.

HB drew the Board's attention to the year-end position and the work underway on the Annual Accounts. TC commented on the significant support from Welsh Government finance colleagues in turning around requests quickly and the Board agreed to place its appreciation on record.

The workforce data prompted discussion on the interpretation of staff sickness absence and the policy for staff testing; the Board noted the role that QS undertook in this respect.

QS and RB-W reported on the provisions made by the GMC and NMC, respectively, on revalidation and MB noted the need to check this for non-medical public health professionals.

PB reported on the stable nature of the general workforce indicators, with HB noting that a number of the business as usual indicators would remain static, given the suspension of many work programmes.

SP welcomed the dashboard approach, and particularly the linkage with the dashboard MB had referred to earlier on wider population health indicators. The suite of dashboards would facilitate comprehensive oversight. JW echoed this, thanking all those responsible for the dashboard design and development. She asked KE and DE to consider how the dash boards could be use at committee level.

The Board **resolved** to note the report, which provided an update on current performance management and monitoring.

PHW64/2020 Strategic Risk Framework

The Board **received** the Strategic Risk Framework (ref 4.5.300420).

The Board considered the Strategic Risk Framework and noted the updates provided.

HB reported that this was very much a status report, given the organisation's mobilisation in support of the COVID-19 response. She referenced the need to review those strategic risks that reflected the environment facing Public Health Wales in the coming months and to frame a strategic risk specifically relating to the pandemic. HB advised that she, RB-W and John Lawson would be meeting shortly, to review the risk landscape and reflect on the in-year risks.

TC supported a review, and asked for the outcome in time for the May Board meeting; she also suggested that, once the Welsh Government has published its COVID-19 response plan, the Board could consider the specific risks for Public Health Wales in one of its briefing sessions.

DE also supported this approach, considering that the pace of change warranted a dynamic approach to risk reviews.

Action: HB, RB-W, JL

The Board **resolved** to:

- **Note** the revised "due dates" summarised in Table 1 that the Audit & Corporate Governance Committee would be asked to consider at their next meeting;

- Take **assurance** that the Strategic Risk Framework had been reviewed and updated.

PHW65/2020 Corporate Risk Register

The Board **received** the Corporate Risk Register (ref 4.6.300420).

RB-W highlighted the inclusion of 10 new risks, all COVID-19 related. The current operating environment called for heightened scrutiny of risks and she acknowledged the need to review all risks, as the distinction between strategic and operational risks was not as clear cut as in times of business as usual. RB-W also referenced the risks identified in the PESTEL analysis included in the Public Health Protection Response Plan.

The Board took **assurance** that the corporate risks of the organisation were being managed appropriately.

PHW66/2020 Standing Financial Instructions

The Board **received** the Financial Authority Arrangements paper on Standing Financial Instructions (ref 4.7.300420).

The Board considered the report, which recommended two changes to delegates finance limits and set out the rationale for these.

HG assessed the level of risk around the operational cost of addressing the pandemic, noting the level of support from Welsh Government to date.

DE acknowledged the need for agile and rapid decision-making in these unparalleled times.

The Board **resolved** to:

- **Approve** option (2) in relation delegated financial limits:-
  - delegate to the Chief Executive the ability to commit financial resources up to £1m
- **Approve** option (1) in relation to Procurement Thresholds & processes:-
  a. suspend the SFI Procurement thresholds as outlined but retain the relevant procurement processes (e.g. requisitioning, ordering etc).
  b. the requirement to seek approval from the Audit and Corporate Governance Committee for contracts, goods or services requiring a STA/SQA be temporarily suspended.

PHW67/2020 Committees of the Board: Report from Committee Chairs

The Board **received** the composite report from the Committee Chairs' (ref 4.8.300420).

Audit and Corporate Governance Committee
DE introduced the report from the meeting on 19 March 2020, which followed on from the verbal update he had provided at the previous Board meeting.
He confirmed that the next Committee meeting would focus on the end of year financial accounts.

The Board **noted** the report from Committee Chair of Audit and Corporate Governance Committee.

PHW68/2020 Ratification of Chair's Action and Affixing of the Common Seal

The Board **received** the Ratification of Chair's Action and Affixing of the Common Seal report (ref 4.9.300420).

The Board resolved to **ratify** the Chair's Action to approve the financial limit of the Deputy Chief Executive Officer and Executive Director of Finance and Operations, to be increased to the CEO Delegated financial limit, and DoR designated limits for the Deputy Director of Finance and Operations.

PHW69/2020 Any Other Business
No other business was raised.
Date of next meeting
28 May 2020
The Public Session closed at 11:25
The Board met in Private Session to consider business of a confidential nature, publicity of which would be prejudicial to the public interest in accordance with Section 1(2) Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960.

Cofnodion heb eu cadarnhau o Gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 30 Ebrill 2020, (a gynhaliwyd yn electronig drwy gyswllt skype/dros y ffôn)

Yn Bresennol:		
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Jyoti Atri	(JA)	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Iechyd a Llesiant (rhan o'r cyfarfod, gadawodd am 11:05am)
Rhiannon Beaumont-Wood	(RB-W)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Kate Eden	(KE)	Cyfarwyddwr Anweithredol, Is-gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
Dyfed Edwards	(DE)	Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol (rhan o'r cyfarfod, gadawodd am 10:00am ac ailymunodd â'r cyfarfod am 11:05am)
Huw George	(HG)	Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid
Stephen Palmer	(SP)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Judi Rhys	(JR)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) a Chadeirydd y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl
Dr Quentin Sandifer	(QS)	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus/Cyfarwyddwr Meddygol
Alison Ward	(AW)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol)
Hefyd yn Bresennol:		

Mark Bellis	(MB)	Cyfarwyddwr Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant (WHO CC)
Sian Bolton	(SB)	Cyfarwyddwr Pontio Dros Dro y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth
John Boulton	(JB)	Cyfarwyddwr Gwella Ansawdd y GIG a Diogelwch Cleifion/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru (rhan o'r cyfarfod, gadawodd am 11:05am)
Phil Bushby	(PB)	Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl
Helen Bushell	(HB)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd, drwy gyswllt telegynadledda
Paul Dalton	(PD)	Pennaeth Archwilio Mewnol (yn arsylwi)
Reanne Reffell	(RR)	Swyddog Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)
Stephanie Wilkins	(SW)	Cynrychiolydd y Fforwm Partneriaeth Staff (rhan o'r cyfarfod)
Ymddiheuriadau:		

Dechreuodd y cyfarfod am 09:45

PHW55/2020	**Croeso**
Croesawodd JW bawb i'r cyfarfod, a oedd yn cael ei gynnal wrth i bandemig covid-19 barhau i ledaenu'n fyd-eang, gyda dros dair miliwn o bobl wedi'u heintio a thros 200,000 o farwolaethau'n fyd-eang. Roedd yn agos at 900 o bobl wedi colli'u bywydau yng Nghymru, a nifer ohonynt o blith y teulu iechyd a gofal. Cynhaliodd y Bwrdd funud o dawelwch er cof amdanynt.	
PHW56/2020	**Ymddiheuriadau**
Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.	
PHW57/2020	**Datgan Buddiannau**
Nododd AW ei bod, ar gais y Gweinidog Llywodraeth Leol, wedi darparu cymorth ar gyfer y cynllun Adfer Llywodraeth Leol. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes ar y gofrestr datgan buddiannau.	
PHW58/2020	**Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2020**

Cymeradwyodd y Bwrdd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2020 yn amodol ar newid un gwall teipograffyddol (cyf 3.1.1.300420).

PHW59/2020 Cofnod o Gamau Gweithredu'r Bwrdd

Ystyriodd y Bwrdd y Cofnod o'r Camau Gweithredu (cyf 3.1.2.300420).

Cymeradwyodd y Bwrdd y penderfyniad i gau y camau gweithredu y nodwyd eu bod wedi'u cwblhau.

PHW60/2020 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd

Coronafeirws Newydd (COVID-19)

Derbyniodd y Bwrdd adroddiad diweddaru ar COVID-19 (cyf 4.1.1.300420); roedd yr adroddiad yn dod â'r meysydd allweddol hynny a adolygwyd yn ystod sesiynau briffio wythnosol y Bwrdd ynghyd hefyd. Canolbwyntiodd y trafodaethau ar y meysydd a ganlyn:

Lleoliadau Caeedig
Aeth JA ati i grynhoi'r gwaith a oedd ar y gweill i gefnogi'r sector cartrefi gofal, gan gynnwys rheoli achosion o COVID-19, ac ystyried ehangu'r system brofi bresennol, o bosibl i gynnwys profion yn y man lle y darperir gofal.

Nododd SP fod angen sail epidemiolegol cadarn ar gyfer y dull hwn a phwysigrwydd hyder y cyhoedd ynddo; roedd profion mewn cartrefi gofal yn parhau i ddenu sylw cyhoeddus eang.

Amlinellodd TC y dull strategol a oedd wrthi'n cael ei ddatblygu; roedd Andrew Jones yn ymwneud â'r gwaith hwn a byddai'n gofyn iddo ddarparu briff ysgrifenedig. Byddai TC hefyd yn anfon llythyr ymlaen at y sector gan Frank Atherton ac Albert Heaney, yn amlinellu sut y byddai'r system iechyd cyhoeddus yn cefnogi cartrefi gofal.
Camau Gweithredu: AJ, TC

Diolchodd JW i JA a TC am y diweddariad; o ystyried pwysigrwydd y sector cartrefi gofal, gofynnodd am adroddiadau penodol ar y sector hwn mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, ynghyd ag adroddiadau ar y sector carchardai, lleoliad caeedig pwysig arall. Yn y cyd-destun olaf, cyfeiriodd at adroddiad diweddar gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr ar reoli COVID-19 mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr. Gwnaeth QS sylw ar yr adroddiad hwn a'r ohebiaeth arfaethedig â Public Health England.
Camau Gweithredu: JA, QS

Cynllun Ymateb er mwyn Diogelu Iechyd y Cyhoedd (y Cynllun)
Ar ran y swyddogion anweithredol, estynnodd JW longyfarchiadau twymgalon i'r Swyddogion Gweithredol a'r holl dîm a oedd yn rhan o'r gwaith o gynhyrchu'r

Cynllun; roedd wedi bod yn gamp ryfeddol, a gyflawnwyd yn gyflym; roedd yn adlewyrchu'n llawn y cyfoeth o arbenigedd o fewn y tîm, ac yn amlinellu'n glir holl gyngor Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y camau sydd eu hangen ar gyfer cyfnod nesaf COVID-19, ynghyd â'r ffaith bod angen gweithredu ar fyrder.

Nododd TC ei bod wedi rhannu'r Cynllun â chydweithwyr yr oedd yn ymddiried ynddynt y noson flaenorol, yn unol â chais y Prif Swyddog Meddygol; roedd gan y derbynyddion tan 5pm ar 1 Mai i ymateb; byddai'r tîm yn dadansoddi'r ymatebion dros y penwythnos ac yn trosglwyddo'r Cynllun terfynol i Lywodraeth Cymru ar 4 Mai, i'w ystyried gan Lywodraeth Cymru.

Yna tynnodd TC sylw'r Bwrdd at Ran 3 o'r Cynllun; roedd hwn yn amlinellu'r cyngor ar y penderfyniadau polisi allweddol, camau galluogi a chamau gweithredu allweddol sydd eu hangen erbyn 7 Mai. Amlinellodd QS fanteision anfon y Cynllun ymlaen at y rhai oedd yn bresennol yng nghyfarfod Grŵp Cydlynu Strategol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 1 Mai; roedd aelodaeth y grŵp yn cynnwys cadeiryddion y Grwpiau Cydlynu Strategol a chynrychiolwyr Fforymau Lleol Cymru Gydnerth ac roedd y cyfarfod yn gyfle i ymgysylltu'n uniongyrchol â phartneriaid allweddol. Roedd yn disgwyl am gadarnhad o'i gais i'r perwyl hwn.

Rhoddodd AW ddiweddariad i'r Bwrdd ar drafodaethau â Phrif Weithredwyr llywodraeth leol a chynrychiolwyr swyddogion iechyd yr amgylchedd.

Nododd TC y byddai cyfarfod cyntaf bwrdd rhaglen Llywodraeth Cymru yn cael ei gynnal y prynhawn hwnnw; roedd hyn yn gyfle i gael adborth cychwynnol. Byddai'r Bwrdd yn cael diweddariad pellach yn gynnar yn ystod yr wythnos i ddod, ar ôl i'r adborth gael ei ddadansoddi.

Diweddariad ar y Gweithlu (cyf 4.1.2.300420)
Myfyriodd RB-W ar y gofynion mawr ar yr holl staff, gyda nifer ohonynt yn gweithio oriau maith ac ar gyflymder sylweddol. Tynnodd sylw'r Bwrdd at: yr adnoddau a'r cymorth a oedd ar gael i'r staff; y trefniadau ar gyfer adleoli effeithiol a chyd-gymorth; y cyngor a'r gefnogaeth ymarferol oedd ar gael; yr amrywiadau dros dro i'r polisïau Pobl, fel y nodir yn Atodiad A.
Gan edrych ymlaen, amlinellodd RB-W y problemau a'r peryglon, ynghyd â heriau'r gweithlu sy'n gysylltiedig â'r cynllun adfer sefydliadol.

Myfyriodd QS a MB ar y cydbwysedd sydd ei angen i sicrhau bod y swyddogaeth diogelu iechyd yn cadw'r adnoddau sydd eu hangen o ran y gweithlu er mwyn ymateb i COVID-19, ac ar yr un pryd galluogi gwaith hanfodol ar oblygiadau cymdeithasol y pandemig ac o ran iechyd y boblogaeth i barhau.

Gofynnodd KE am eglurhad ynghylch y 500-550 o aelodau o staff y nodwyd eu bod ar ddyletswyddau dinesig; esboniodd RB-W nad oedd y data hyn yn gywir ac roedd wrthi'n cael ei ddiweddaru a'i lanhau. Ymhelaethodd SB ar y pwynt hwn, gan gadarnhau bod rheolwyr mewn cysylltiad rheolaidd â'r staff hyn ac

wrthi'n cytuno ar becynnau gwaith; roedd nifer o staff hefyd yn gwirfoddoli. Cytunodd RB-W i ddiweddaru'r esboniad a roddwyd, er mwyn rhoi mwy o eglurder.
Camau Gweithredu: RB-W, SB

Diolchodd JW i RB-W am y diweddariad hwn a mynegodd ddealltwriaeth y Bwrdd o'r amgylchedd gwaith unigryw sy'n wynebu staff, a gwerthfawrogiad o'u parodrwydd i addasu. Byddai'r Bwrdd yn diolch i'r staff yn yr ohebiaeth nesaf.
Camau Gweithredu: JW, HB

Deall Effeithiau Cymdeithasol Ehangach y Coronafeirws a'r mesurau a gymerwyd i reoli trosglwyddiad, ac Ymateb i Hynny

Amlinellodd MB y gyfres o gamau yr oedd ef a'i dîm yn eu cymryd i feithrin gwell dealltwriaeth o effaith mesurau COVID-19 ar iechyd ehangach y boblogaeth. Roedd adroddiad y Bwrdd yn cynnwys diagram yn nodi dull cyfundrefnol o gasglu gwybodaeth, yn cynnwys: Asesiad o Effaith ar Iechyd o ganlyniad i COVID; Arolwg Cenedlaethol Ymgysylltu â'r Cyhoedd; Sganio'r Gorwel yn Rhyngwladol; Dangosfwrdd o dueddiadau iechyd ehangach.

Nododd MB y byddai canlyniadau'r arolwg wythnosol yn cael eu rhannu ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru o hyn ymlaen, a'u cylchredeg hefyd. Gallai'r canlyniadau lywio gwaith cynllunio ar gyfer y dyfodol a mesur a yw'r cyhoedd yn derbyn unrhyw fesurau newydd ac yn cydymffurfio â hwy.

Roedd yr adroddiad ar y goblygiadau ehangach i iechyd y cyhoedd bron wedi'i gwblhau a chadarnhaodd TC y byddai'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yr wythnos nesaf.

Croesawodd aelodau'r Bwrdd y newyddion diweddaraf, gan ganmol MB a'i dîm am hyd a lled y gwaith a oedd ar y gweill; roedd gan yr aelodau ddiddordeb clywed mwy am ddatblygiad y dangosfwrdd, y gwersi rhyngwladol a ddysgwyd a'r cynnydd o ran yr Asesiad o Effaith ar Iechyd.

Adrodd ar nifer y marwolaethau yn sgil COVID (cyf 4.1.3.300420 a chyf 4.1.4.300420)
Esboniodd QS gefndir a chanlyniad yr adolygiad o'r drefn adrodd ar nifer y marwolaethau yn sgil COVID ar lefel bwrdd iechyd. Byddai bellach yn cynnal cyfarfodydd sicrwydd wythnosol â chyfarwyddwyr meddygol byrddau iechyd a phrif ystadegydd Llywodraeth Cymru.

Penderfynodd y Bwrdd nodi'r diweddariad ynglŷn ag ymateb Iechyd Cyhoeddus Cymru i'r pandemig COVID-19.

PHW61/2020 Rhaglenni Sgrinio yng Nghymru

Derbyniodd y Bwrdd y diweddarad am y Rhaglenni Sgrinio (cyf 4.2.300420).

Disgrifiodd QS y rhesymau dros atal pump o'r rhaglenni sgrinio cenedlaethol o 18 Mawrth 2020 ymlaen; roedd hyn yn adlewyrchu'r penderfyniad a wnaed yn yr Alban a Gogledd Iwerddon – mae gan Loegr fodel rhaglen wedi'i datganoli, felly ni chafwyd unrhyw ddatganiad o sefyllfa cyfatebol cenedlaethol.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu sut roedd yr Is-adran Sgrinio wedi gweithio i leihau effaith atal y rhaglenni ac i adleoli staff i gefnogi'r ymateb i covid-19; rhoddodd y newyddion diweddaraf i'r Bwrdd hefyd ar y tair rhaglen sy'n dal i weithredu: sgrinio cyn geni, sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig a sgrinio clyw babanod.

Yna aeth QS ati i grynhoi'r ddarpariaeth barhaus lle y gall cleifion symptomatig gael mynediad at asesiadau a thriniaethau o ran gwasanaethau sgrinio'r fron, sgrinio serfigol a chanser y coluddyn. Esboniodd y rhesymau dros atal y gwasanaethau colonosgopi a nodi llwybr arall i gleifion.

Holodd KE am ragor o wybodaeth am y gwaith sydd ar y gweill i asesu'r niwed posibl o ganlyniad i atal y rhaglenni; adleisiodd SP y pwynt hwn, gan ailadrodd pwysigrwydd deall y niwed o ganlyniad i darfu ar wasanaethau sgrinio. Hefyd cododd y mater o ailennyn hyder y cyhoedd o ran cael mynediad at wasanaethau'r GIG a rôl profi am COVID-19 o ran cefnogi ailagor rhai gwasanaethau. Nododd JR y niferoedd amrywiol a oedd yn manteisio ar raglenni sgrinio cyn COVID, a phwysigrwydd gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd ag iddo ffocws.

Croesawodd QS y sylwadau a rhoddodd wybodaeth i'r Bwrdd an y gwaith a oedd ar y gweill ar lefel y DU a Chymru, yn cynnwys Rhwydwaith Canser Cymru a Phwyllgor Sgrinio Cymru. Nododd yr ystyriaeth sy'n cael ei rhoi i rôl profi o ran cefnogi'r gwaith o ailddechrau rhai triniaethau llawfeddygol; a chadarnhaodd fod yr Is-adran Sgrinio eisoes wedi dechrau ystyried y gofynion o ran ymgysylltu â'r cyhoedd.

Cadarnhaodd JW gyda KE y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella yn cynnwys eitem ar raglenni sgrinio; nododd RB-W ei bod yn gallu adrodd nad oedd unrhyw broblemau o ran y cyflenwad o gyfarpar diogelu personol.

Diolchodd JW i QS a'r Adran Sgrinio am yr adroddiad, ac i aelodau'r Bwrdd am eu cyfraniad at y drafodaeth bwysig hon.

Penderfynodd y Bwrdd nodi sefyllfa bresennol y rhaglenni sgrinio, a sut roedd yr Adran Sgrinio wedi gweithio i leihau effeithiau COVID-19 ac wedi'i aildrefnu i gefnogi'r ymateb iddo.

PHW62/2020 Trefniadau Llywodraethu

Derbyniodd y Bwrdd y papur ar Drefniadau Llywodraethu (cyf 4.3.300420)

Aeth HB ati i grynhoi diben yr adroddiad, sef rhoi sicrwydd bod y Bwrdd a'r sefydliad yn cynnal trefn lywodraethu dda yn ystod yr ymateb i COVID-19; cadarnhaodd y materion hynny y mae'r Bwrdd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau yn eu cylch yn unol â chynllun dirprwyo'r Bwrdd; a thynnodd sylw at yr adran ar ddarparu cyngor i Lywodraeth Cymru. Roedd rôl y Bwrdd o ran datblygu'r Cynllun Ymateb er mwyn Diogelu Iechyd y Cyhoedd yn enghraifft o'r ddarpariaeth a nodwyd.

Esboniodd TC y sail resymegol dros addasu'r trefniadau rheoli sefydliadol ar gyfer cam nesaf yr ymateb i COVID-19; nodwyd strwythur bwrdd rheoli'r rhaglen yn atodiad dau.

Penderfynodd y Bwrdd:

- **Gymeradwyo'r** penderfyniad i leihau'r agenda a chanolbwyntio ar fusnes hanfodol yn unig yn ystod cyfnod y pandemig coronafeirws;
- **Mabwysiadu'r** egwyddorion gweithio a'r ffyrdd o weithio i'w cytuno a'u cymhwyso yn ystod y cyfnod hwn;
- Cymryd **sicrwydd** o'r strwythur rheoli gweithredol mewn ymateb i'r pandemig COVID-19.

PHW63/2020 Adroddiad Integredig ar Berfformiad

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad Integredig ar Berfformiad (cyf 4.3.300420).

Cyflwynodd HG yr adroddiad, gan nodi bod data'n cael eu darparu ar ffurf dangosfwrdd a bod y ffocws ar adrodd yn erbyn pedwar maes: yr ymateb i COVID-19; Cyllid; y Gweithlu; Dangosyddion Perfformiad.

Roedd yr adroddiad ar COVID-19 yn darparu data gwyliadwraeth lefel uchel, o'r math yr oedd y Bwrdd bellach wedi arfer eu gweld yn cael eu defnyddio ar gyfer y crynodebau dyddiol.

Tynnodd HB sylw'r Bwrdd at y sefyllfa diwedd blwyddyn a'r gwaith a oedd ar y gweill ar y Cyfrifon Blynyddol. Gwnaeth TC sylw am y gefnogaeth sylweddol gan gydweithwyr cyllid Lywodraeth Cymru o ran ymateb i geisiadau'n gyflym a chytunodd y Bwrdd i gofnodi ei werthfawrogiad.

Ysgogodd data'r gweithlu drafodaeth ar y dehongliad o absenoldeb staff oherwydd salwch a'r polisi ar gyfer profi staff; nododd y Bwrdd y rôl yr oedd QS wedi'i chwarae yn hyn o beth.

Adroddodd QS a RB-W ar y darpariaethau a wnaed gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar ail-ddilysu a nododd MB yr

angen i wirio hyn ar gyfer gweithwyr proffesiynol iechyd cyhoeddus anfeddygol.

Adroddodd PB ar natur sefydlog dangosyddion y gweithlu cyffredinol, a nododd HB y byddai nifer o ddangosyddion busnes fel arfer yn aros yn sefydlog, o ystyried bod nifer o raglenni gwaith wedi'u hatal.

Croesawodd SP y dangosfwrdd, ac yn enwedig y cysylltiad â'r dangosfwrdd yr oedd MB wedi cyfeirio ato'n gynharach ar ddangosyddion iechyd y boblogaeth ehangach. Byddai'r gyfres o ddangosfyrddau'n hwyluso goruchwyliaeth gynhwysfawr. Adleisiwyd hyn gan JW, a diolchodd i bawb a oedd yn gyfrifol am ddylunio a datblygu'r dangosfwrdd. Gofynnodd i KE a DE ystyried sut y gellid defnyddio'r dangosfyrddau ar lefel pwyllgor.

Penderfynodd y Bwrdd nodi'r adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa bresennol o ran rheoli a monitro perfformiad.

PHW64/2020 Fframwaith Risg Strategol

Derbyniodd y Bwrdd y Fframwaith Risg Strategol (cyf 4.5.300420).

Ystyriodd y Bwrdd y Fframwaith Risg Strategol a nodwyd y diweddariadau a ddarparwyd.

Nododd HB mai adroddiad statws oedd hwn i raddau helaeth, o ystyried bod y sefydliad wrthi'n cefnogi'r ymateb i COVID-19. Cyfeiriodd at yr angen i adolygu'r risgiau strategol hynny a oedd yn adlewyrchu'r amgylchedd a fydd yn wynebu Iechyd Cyhoeddus Cymru yn y misoedd i ddod ac i lunio risg strategol sy'n ymwneud yn benodol â'r pandemig. Nododd HB y byddai hi, RB-W a John Lawson yn cwrdd yn fuan i adolygu'r sefyllfa o ran risgiau ac ystyried y risgiau a fyddai'n codi yn ystod y flwyddyn.

Roedd TC yn cefnogi cynnal adolygiad, a gofynnodd i'r canlyniad fod ar gael mewn pryd ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Mai; awgrymodd hefyd, ar ôl i Lywodraeth Cymru Gyhoeddi ei chynllun ymateb i COVID-19, y gallai'r Bwrdd ystyried y risgiau penodol ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod un o'i sesiynau briffio.

Roedd DE hefyd yn cefnogi'r dull hwn, o ystyried bod cyflymder y newid yn cyfiawnhau dull deinamig o adolygu risgiau.

Camau gweithredu: HB, RB-W, JL

Penderfynodd y Bwrdd:

- **Nodi'r** "dyddiadau cwblhau disgwyliedig" diwygiedig sydd wedi'u crynhoi yn Nhabl 1 y bydd gofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ystyried yn eu cyfarfod nesaf;

- Cymryd **sicrwydd** bod y Fframwaith Risg Strategol wedi'i adolygu a'i ddiweddaru.

PHW65/2020 Y Gofrestr Risg Corfforaethol

Derbyniodd y Bwrdd y Gofrestr Risg Corfforaethol (cyf 4.6.300420).

Nododd RB-W bod 10 risg newydd wedi'u cynnwys, a phob un ohonynt yn ymwneud â COVID-19. Roedd yr amgylchedd gweithredu presennol yn galw am graffu dwysach ar y risgiau ac roedd hi'n cydnabod yr angen i adolygu pob risg, gan nad oedd y gwahaniaeth rhwng risgiau strategol a gweithredol mor eglur ag yn ystod cyfnod o fusnes fel arfer.
Cyfeiriodd RB-W hefyd at y risgiau a nodwyd yn y dadansoddiad PESTEL yn y Cynllun Ymateb er mwyn Diogelu Iechyd y Cyhoedd.

Cafodd y Bwrdd **sicrwydd** bod risgiau corfforaethol y sefydliad yn cael eu rheoli'n briodol.

PHW66/2020 Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog

Derbyniodd y bwrdd y papur ar Drefniadau Awdurdod Ariannol ar Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (cyf 4.7.300420).

Ystyriodd y Bwrdd yr adroddiad, a oedd yn argymell dau newid i derfynau cyllid dirprwyedig a nodwyd y sail resymegol dros y rhain.

Asesodd HG lefel y risg ynghylch cost weithredol mynd i'r afael â'r pandemig, gan nodi lefel y cymorth gan Lywodraeth Cymru hyd yma.

Roedd DE yn cydnabod yr angen i fod yn ystwyth a chyflym wrth wneud penderfyniadau yn ystod y cyfnod digynsail hwn.

Penderfynodd y Bwrdd:

- **Gymeradwyo** opsiwn (2) mewn perthynas â therfynau cyllid dirprwyedig:-
  - dirprwyo i'r Prif Weithredwr y gallu i glustnodi adnoddau ariannol hyd at £1 filiwn
- **Cymeradwyo** opsiwn (1) mewn perthynas â Throthwyon a phrosesau Caffael:-
  a. atal Trothwyon Caffael Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog fel yr amlinellwyd ond cadw'r prosesau caffael perthnasol (e.e. archebu ayb).
  b. atal dros dro y gofyniad i ofyn am gymeradwyaeth gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer contractau,

nwyddau neu wasanaethau lle mae'n ofynnol cael Tendr Unigol/Dyfynbris Unigol.

PHW67/2020 Pwyllgorau'r Bwrdd: Adroddiadau gan Gadeiryddion y Pwyllgorau

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad cyfansawdd gan Gadeiryddion y Pwyllgorau (cyf 4.8.300420).

Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol
Cyflwynodd DE yr adroddiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2020, yn dilyn y diweddariad ar lafar a roddodd yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd. Cadarnhaodd y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn canolbwyntio ar gyfrifon ariannol diwedd y flwyddyn.

Nododd y Bwrdd yr adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol.

PHW68/2020 Cadarnhau Camau Gweithredu'r Cadeirydd a Gosod y Sêl Gyffredin

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad yn cadarnhau Camau Gweithredu'r Cadeirydd a Gosod y Sêl Gyffredin (cyf 4.9.300420).

Penderfynodd y Bwrdd **gadarnhau** Cam Gweithredu'r Cadeirydd i gymeradwyo terfyn ariannol y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid, sef ei gynyddu at derfyn ariannol dirprwyedig y Prif Weithredwr, ac at derfynau dirprwyedig ar gyfer y Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyllid.

PHW69/2020 Unrhyw Fater Arall

Ni chodwyd unrhyw fater arall.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

28 Mai 2020

Daeth y Sesiwn Gyhoeddus i ben am 11:25

Yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, cyfarfu'r Bwrdd mewn Sesiwn Breifat i ystyried busnes o natur gyfrinachol, y byddai rhoi cyhoeddusrwydd iddo'n niweidiol i fudd cyhoeddus.